



## Cofnodion/Minutes

### Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

Dyddiad/Date: 09/01/2023

am 7:00 yh/ at 7:00pm

Gynhaliwyd / Held.... gan nad oedd y band yn cwrdd mi oedd y cyfarfod yn Ystafell Bryneglwys, Y Ganolfan as there was no band practice the meeting was held in Ystafell Bryneglwys at the Ganolfan.

PresennolY Cadeirydd/Chair Robert Jones a'r Cynghorwyr Bethan Lawton, Eleri Puw, Emrys Thompson, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Dylan Jarman,

#### 1. Ymddiheuriadau

Steve Lewis. Wedi cael diwrnod blin ac am orffwys. Elwyn Evans wedi mynd i lawr i Benarth, Caedydd i warchod teulu.

#### 2. Datgan diddordeb - Neb

3. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd. Cafwyd y cofnodion yn gywir Emrys Th yn cynnig Gwynedd R yn eilio a phawb yn cytuno

#### 4. Cae Chwarae. Pob dim yn iawn

#### 5. Mynwentydd. Pob dim yn iawn

(Un o gymdogion y pentre wedi colli ei fam ac fydd eisiau cael claddu llwch yn y Llan, gwybodaeth i'r dyfodol)

6. Llwybrau £828 sef infois o Kevin Jones am waith llwybrau.(i gael ad daliad o Cyngor Gwynedd = £300 y llynedd)

#### 7. Toiledau wedi cau. Wedi cael infois am £2000 am y flwyddyn diwethaf.

Pasiwyd cyn talu, fod angen cofnodi ein bod yn disgwyl gwelliannau cyn dal i dalu £2000. Cyflwr yn wael.

8. Adroddiad o'r gadair. Ardal Llechi. Y plac fach lechen yn eu lle ac yn dal i ddisgwyl am yr arwydd mawr. Pasiwyd i anfon y ddwy ffurflen yn ol wedi eu cwblhau i drosglwyddo'r asedau i'n gofal fel Cyngor. Gwaith atgyweirio wedi cymeryd lle yng Nghastell y Bere.

9. Adroddiad Clerc. Ymgynghoriad ar sefyllfa a'r newidiadau i ddarpariaeth yr 'Air Ambulance' Does yna fawr o symud ar y mater. Beth Lawton wedi

gofyn am safle ymgynghoriad yn ardal Tywyn i ymwneud ar mater.

10. Presept. Cafwyd trafodaeth ar y costau a faint oeddem am godi ar y precept gan fod ein costau yn codi, a heb dalu i'n clerc gan ein bod yn gwneud y gwaith yn fewnol nes dod o hyd i rhywun. Cytuno i godi 2 y cant, yn cael ei gynnig gan Dylan ac eilwyd gan Miriam. Pawb yn cytuno y gallwn ei gadw at hyn gan fod ein coffrau yn edrychyn weddol ac y gallwn atal codi mwy.

11. Archwyliad mewnol, pob dim yn iawn ac wedi eu hafnon i Gaerdydd .

Cofnodi ein bod wedi trafod y balance sheet wrth drafod y Precept.

Caerdydd yn holi pam fod ganddom gymaint wrth gefn? Atebwyd ein bod yn edrych ar ol dwy fynwent a chae chwarae a bod angen cyllid wrth gefn i ddarparu atgyweirio offer neu brynnu newydd. Fe fyddai pethau yn edrych yn dra gwahanol onibai ein bod wedi derbyn cymorthdal o £5000 tuag at offer Cae chwarae o gwmni Coop. Roeddent hefyd yn holi pam fod llinell 6 yn fwy o ffigwr nag oedd y llynedd, ac atebwyd fod yna daliad wedi dod i mewn am fedd ychwanegol sef 3 yn lle 2 y flwyddyn flaenorol. Mae eisiau llun o'r bwrdd hysbysu i gadarnhau yr etholedigion , er nad oes newid wedi bod o fewn y cyngor.

12. Adroddiad Cyllideb: Anfoneb wedi dod i law am waith i'n safle Gwe £120 oddiwrth Scott. Mae angen cadw golwg ar y rhoddion, gan ein bod wedi gwario yn sylweddol heb roddi rhoddion.

13. Adroddiad Beth Lawton ein Cyngorydd Sir: Toriadau enfawr ar y gorwel £12m o golled o'n blaen. Y cyngor yn debyg o gynnig codiad o 5% yn ein trethi.

Bwrdd iechyd wedi gohirio cyfarfod a disgwyl iddi gael dyddiad ail drefnu.

14. Ciosgs. Minffordd ar Groesffordd Caerberllan yn gweithio.

15. Swydd Clerc. Nodwyd fod Huw Jones o ardal Mallwyd wedi cymeryd a swydd cleric Cyngor Pennal. Y cadeirydd am gael sgwrs gyda rhywun a diddordeb gan ei bod wedi gofyn a gefai amser i roddi swydd Clerc arall i fynnu, cyn gallu rhoddi ymroddiad i swydd Abergynolwyn.

16. Un Llais. Elwyn Evans ddim yn bresennol . Dim iw adrodd

17. Safle Treftadaeth. Dim byd ychwanegol, angen cyfarfod i yrru pethau ymlaen.

18. Ardal Ni 2023. Holi os oedd eisiau dosbarthiadau laith Gymraeg yn yr ardal. Mae yna unigolion yn mynchyu gwersi yn Nhŷwyn. Croesawu unrhyw beth i hybu yr iaith Gymraeg mewn unrhyw ffordd.

.

Unrhyw fater arall:

Cyngor Cymuned wedi rhoddi coeden Nadolig l'r Eglwys. Ond mi fu rhaid gohirio y gwasanaeth Nadolig oherwydd y tywydd anffafriol i bobl fynychu.

Gwesty y Railway yn son am ail agor ym mis Mawrth.

Gwasanaeth plygain yn yr Eglwys, nos lau y 12ed o Ionawr.

1. Cartref Mari Jones.

2. Casglwyd £10.34 yn y bocs rhoddion yno gan Emrys

3. Trafodwyd fod angen gwella yr ysgrifenn ar yr arwydd yno a chafwyd cais i gyswilt a CM Mason 07770910435 o Ddolgellau i holi os oedd a diddordeb.

Cyfarfod i ben am 8.30yh

Present The Chairman/Chair Robert Jones and Councilors Bethan Lawton, Eleri Puw, Emrys Thompson, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Dylan Jarman,

1. Apologies

Steve Lewis. Had a difficult day and wanted to rest. Elwyn Evans has gone down to Penarth, Cardiff to help out with family.

2. Declaration of interest – None

3. Everyone was welcomed by the Chairman. The minutes were proposed as correct by Emrys Th, Gwynedd R seconded and all agreed

4. Playground. Everything is fine

5. Cemeteries. Everything is fine

(One of the residents of the village has lost his mother and will want the ashes to be buried in the Llan, this information was noted for future reference)

6. Paths.... Invoice for £828 from Kevin Jones regarding annual path work. (Will be submitted for a refund from Gwynedd Council = £300 received last year)

7. Closed toilets. The Community Council has Received an invoice for £2000 for the last year.

It was passed that we advise Gwynedd Council that we expect improvements before paying £2000 due to the poor condition of the building.

8. Report from the chair. Ardal Llechi. The small slate plaque is in place and we are still waiting for the big sign. Passed to send the two forms back after their completion to transfer the assets to our care as a Council.

Work/Repairs have taken place at Castell y Bere.

9. Clerk's Report. Consultation on the situation and the changes to provision of the 'Air Ambulance' There is little movement on the matter. Beth Lawton has requested a consultation visit in the Tywyn area.

10. Precept. There was a discussion on the costs and how much we wanted to raise on the precept as our costs are rising, and currently the clerk's work is being done internally until someone is found. Agreed to raise by 2% proposed by Dylan and seconded by Miriam. Everyone agreed  
We can keep it to this level as our reserves are looking ok.

11. Internal Audit has been completed, all is well and it has been sent to Cardiff.

We agreed to record that we have discussed the balance sheet when discussing the Precept.

Cardiff previously asked why we have so much in reserve? It was answered that we were responsible for looking after two cemeteries and a playground and needed reserve funding to purchase or repair equipment. Things would look very different if we had not received a grant of £5000 towards Playground equipment from the Coop They had also asked why line 6 was a larger figure than the previous year, and they were informed that there had been a payment received for an additional grave which was 3 instead of 2 as we had the previous year. The auditors also wanted a photo of the notice board to confirm the elected councillors ....although there had been no change within the council.

12. Budget Report: Invoice received for work to our Web site £120 from Scott.

We need to keep track of the donations we give, as we have spent significantly without giving many donations this year.

13. Our County Councilor Beth Lawton's report: Large cuts on the horizon with Gwynedd Council facing a

£12m deficit. The council is likely to propose a 5% increase in our Council Tax

The health board had postponed a meeting and Beth expects it to have a rescheduled date.

14. Kiosks. Minffordd and Caerberllan Junction working.

15. Office of Clerk. It was noted that Huw Jones from the Mallwyd area had taken the Pennal Council clerk post. The chairman agreed to have a further chat with someone with interest as she had asked if she could have time to give up another Clerk's position before committing to Abergynolwyn.

16. One Voice. Elwyn Evans not present. Nothing to report

17. Heritage Site. Nothing extra to note, members felt the need for a meeting to drive things forward

18. Ardal Ni 2023. The council were asked if there was a demand for Welsh Language classes in the area. There are individuals attending lessons in Tywyn. The Council would Welcome anything to promote the Welsh language in any way.

.

Any other matters: for information only

The Community Council has given a Christmas tree to the Church. But unfortunately they had to postpone the Christmas service due to the unfavorable weather making it unsafe for people to attend.

The Railway Hotel talks about re-opening in March.

Plygain service in the Church, Thursday evening the 12th of January.

1. Marie Jones' home.

2. £10.34 was collected in the donation box there by Emrys

3. It was discussed that the writing on the sign there needed to be improved and it was agreed to contact CM Mason 07770910435 from Dolgellau to inquire if he was interested.

Meeting ended at 8.30pm

Cyfarfod nesaf:

13/2/2023 @7:00yh

Next meeting:

Llofnod y Cadeirydd/ Chair Signature

Dyddiad/Date

clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com